Astudiaeth Achos

Wythnos Llythrennedd Carbon (Hydref 2023) a Phrosiect Carbon Sero Net (Medi 2023 – Ionawr 2024)

Pwyntiau Allweddol

- Y defnydd o broblem fusnes amgylcheddol byd go iawn i arwain dysgu'r myfyrwyr
- Integreiddio dysgu a hyfforddiant amgylcheddol o fewn cwricwlwm y myfyrwyr.
- Roedd addysgeg dysgu seiliedig ar broblemau yn sail i gymhwyso'r hyn a ddysgwyd o Wythnos Llythrennedd Carbon i ddatrys problemau go iawn yn y byd go iawn.
- Addysgu a dysgu amgylcheddol technegol wedi'i gyflwyno drwy ddatblygu sgiliau seiliedig ar brosiect.
- Cyfleoedd i fyfyrwyr ennill achrediad trwy dystysgrif llythrennedd carbon

Wythnos Llythrennedd Carbon

Mae'r Wythnos Llythrennedd Carbon yn wythnos addysgu integredig ar y cwrs MSc Rheoli Busnes Rhyngwladol, cymhwyster blwyddyn ôl-raddedig llawn. Datblygwyd yr wythnos i gefnogi dysgu myfyrwyr tra'n ymchwilio i brosiect sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd a chyrraedd targedau di-garbon yn y brifysgol. Roedd menter addysgu/hyfforddiant yr wythnos yn rhan o'r Llythrennedd Carbon, gyda'r nod o gael myfyrwyr i gynnig addewidion amgylcheddol ac ymrwymo i newid amgylcheddol. O ganlyniad i'r wythnos, os yw'n cael ei chwblhau'n llwyddiannus, a'r addewidion priodol wedi'u cyflawni, cafodd y myfyrwyr gydnabyddiaeth o'u hymrwymiad, a dyfarnwyd cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer darparu hyfforddiant llythrennedd carbon. Eleni 2023-24, cwblhaodd 28 y cwrs yn llwyddiannus. Yn y flwyddyn i ddod 2024-25 rydym yn bwriadu symud ymlaen â phob un o'r 48 o fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar y rhaglen.

Nid ymarfer damcaniaethol yn unig oedd y prosiect a ymgymerais â Chyngor Caerdydd, ond cymhwysiad ymarferol a byd go iawn o'n hastudiaethau. Ehangodd y profiad ymarferol hwn ein dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn sylweddol a rhoddodd fewnwelediad manwl i agweddau ymarferol ein maes astudio.

Roedd arwain tîm ar brosiect byw Cyngor Caerdydd yn brofiad trawsnewidiol i mi. Fe wnaeth hyn fy annog i feddwl yn feirniadol a dyfnhau fy arbenigedd mewn cynaliadwyedd ac mae wedi tanio angerdd ynof i. Mae'r angerdd newydd hwn wedi fy arwain i wirfoddoli gydag Adran Gynaliadwyedd Prifysgol Metropolitan Caerdydd, lle rwy'n gwneud cyfraniadau sylweddol i fentrau pwysig.

Aishat Ayomide Oladipo (MSc Rheoli Busnes Rhyngwladol)

Prosiect Carbon Sero Net

Yn 2024, fel rhan o'u modiwl, cafodd y myfyrwyr eu herio i ddyfeisio rhaglen newid ymddygiad amgylcheddol cynaliadwy i'w gweithredu o fewn Cyngor Caerdydd. Mae Cyngor Caerdydd yn gyflogwr mawr yng Nghaerdydd a Chymru, ac ar hyn o bryd mae'n cyflogi 13,263 o bobl. Roedd yn rhaid i fyfyrwyr ystyried is-gontractwyr a phobl eraill a gyflogir o fewn y gadwyn gyflenwi a'r rhai a gyflogir yn anuniongyrchol gan y cyngor (y rhai sy'n dod o fewn categori Cwmpas 3). Fel y cyfryw, mae gan yr ymgyrch i hyrwyddo ymddygiad amgylcheddol cynaliadwy o fewn y cyngor, a'r rhai sy'n ei wasanaethu, y potensial i greu effaith amgylcheddol enfawr nid yn unig o fewn amgylchedd y ddinas leol, ond o fewn yr amgylchedd a'r economi ranbarthol ehangach. Mewn cyfnod lle mae hybu ymwybyddiaeth amgylcheddol yn hollbwysig, gallai menter o'r fath gael ei gweld fel amcan polisi hanfodol o fewn sefydliad mor fawr a phellgyrhaeddol, lle mae effeithiau "gollwng" a chanlyniadau polisi yn debygol o effeithio ymhell y tu hwnt i'r menter wreiddiol.

Dyma’r elfennau yr oedd yn rhaid i fyfyrwyr ganolbwyntio arnynt:

- Asesiad gwaelodlin o fentrau newid ymddygiad presennol o fewn Cyngor Caerdydd a'u heffeithiolrwydd
- Manylion y fenter(au) newid ymddygiad i'w cynnwys yn eu rhaglen
- Ystyried unrhyw rwystrau posibl i newid a sut y gellir eu goresgyn
- Dull o fonitro, asesu a gwerthuso llwyddiant eu menter(au) effaith bosibl ar ymddygiad amgylcheddol; yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol
- Cynllun gweithredu sy'n ystyried adnoddau, graddfeydd amser a chyfrifoldebau/atebolrwydd.
- Cyllideb ddangosol ar gyfer cost y rhaglen

Mae canlyniadau'r prosiectau hyn wedi bod yn drawsnewidiol i'r myfyrwyr, sydd wedi datblygu sgiliau cynaliadwyedd manwl ac wedi dysgu ymgorffori cynaliadwyedd yn eu penderfyniadau.